Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
—
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
Senedd Cymru
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Chris Llewelyn
Prif Weithredwr
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

8 Rhagfyr 2022

Annwyl Chris

Yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd, cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sesiwn sganio'r gorwel gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i archwilio'r prif faterion sy'n effeithio ar ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.

Fe drafodwyd y mater o adroddiadau AGC, er enghraifft adroddiadau arolygu ar gartrefi plant, a'r hyn sy'n digwydd iddynt ar ôl cael eu cyflwyno i'r awdurdod lleol perthnasol. Mae aelodau'n awyddus i ddeall y broses a bydden nhw'n ddiolchgar petaech yn gallu egluro:

1. Beth sy'n digwydd i'r adroddiad ar ôl ei gyhoeddi, er enghraifft a gaiff ei ystyried yn ffurfiol gan y pwyllgor craffu perthnasol.
2. Sut mae camau'n cael eu gweithredu.
3. Sut mae camau gweithredu'n cael eu monitro a gan bwy.

Byddwn yn ystyried ein blaenraglen waith yn gynnar yn y flwyddyn newydd, a byddai'n ddefnyddiol felly derbyn eich ymateb erbyn 27 Ionawr 2023.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

cc Jayne Bryant, Cadeirydd Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg